Disgyblion newydd

Braf yw cael croesawu pump o ddisgyblion newydd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg. Mae Robert Edwards, Lisa Healy, Aled Rhys Jones, Holly Richards a Sian Robinson yn hapus braf yn ein plith.

Gwellhad

Erbyn hyn mae Mrs E Evans a Mrs E Scurlock wedi dychwelyd i'w dyletswyddau yn yr ysgol, y naill i'r dosbarth a'r llall i'r gegin. Rhaid diolch yn ddiffuant iawn i Mrs Louisa Phillips am ei gwaith a'i gofal yn nosbarth 2 dros yr wythnosau diwethaf ac i Mrs Carol Evans a Mrs Anne Bunton am eu cyfraniad hwythau yn y gegin. Derbyniwch ein diolch un ac oll.

Myfyriwr

Estynnwn groeso cynnes i Mr Iwan Ellis o Goleg y Brifysgol Aberystwyth sydd yn treulio cyfnod o ymarfer dysgu yn yr ysgol. Gobeithio y bydd yn hapus a chartrefol yn ein cwmni ac y cawn gydweithio hwylus yn ystod ei arhosiad.